# PWYLLGOR RHANBARTH Y CANOLBARTH

# MID WALES TEC CANOLBARTH CYMRU

## 1. CYFLWYNIAD

1.1 Dyma gyfle amserol i Bwyllgor Rhanbarthol Canolbarth Cymru ymdrin â’r angen i ddatblygu sgiliau pobl Canolbarth Cymru. O’r diwedd, mae’r cynllunwyr datblygu economaidd yng Nghymru yn cydnabod pwysigrwydd Datblygu Adnoddau Dynol, maes a esgeuluswyd mor aml yn y gorffennol. Mae agenda Datblygu Adnoddau Dynol bellach yng nghanol y darlun. Cydnabyddir o’r diwedd bod yna gysylltiad rhwng gweithlu medrus ac economi iach a chyfoethog.

1.2 Bydd angen ymdrech aruthrol i gael mwy o bobl i waith ac i gynyddu cynhyrchiant trwy uwchraddio sgiliau os ydym am gyflawni targedau Cynnyrch Mewnwladol Crynswth Cymru. Mae TEC Canolbarth Cymru o’r farn fod sefydlu Cyngor Addysg a Hyfforddiant Cymru (CETW) yn gam cyntaf hanfodol wrth newid ymagwedd yn sylweddol. Mae’n rhaid i Gymru ddod yn Wlad sy’n Dysgu.

## 2. TEC CANOLBARTH CYMRU

1. Sefydlwyd Mid Wales TEC Canolbarth Cymru Cyf ar y 1af o Ebrill 1999. Mae ei Fwrdd Cyfarwyddwyr yn cynrychioli buddgarfanau preifat a chyhoeddus yn y rhanbarth.

2.2 Yn ystod ein blwyddyn ariannol gyntaf, 1999-2000, gwariwyd mwy na £11 miliwn. Cyflogir pum deg dau o staff, gan gynnwys chwe staff maes yn gweithio o swyddfeydd Cyswllt Busnes ledled y rhanbarth.

## 3. BETH YW PROBLEM SGILIAU CANOLBARTH CYMRU?

3.1 Dynodwyd Canolbarth Cymru yn un o’r rhanbarthau tlotaf a thlotaf-ond-un yn Ewrop. Mae dau ffactor yn gyfrifol i raddau helaeth am ddiffyg llwyddiant economaidd y rhanbarth.

3.2 Yn gyntaf, mae busnesau Canolbarth Cymru, ar y cyfan, yn cynhyrchu llai na chyfartaledd y DG, yn rhannol oherwydd bod gymaint o bobl yn gweithio mewn diwydiannau traddodiadol, llafurddwys. Ond yn bwysicach na hyn, efallai, busnesau bychain sydd i’w cael yn y rhanbarth yn bennaf. Nid yw’r wybodaeth, y sgiliau na’r cymhelliant gan berchnogion y busnesau hyn i fabwysiadu uwch dechnoleg neu’r technegau cynhyrchu a rheoli diweddaraf.

3.3 Yn ail, mae llawer o’r bobl sydd o oed gweithio yng Nghanolbarth Cymru y tu allan i’r farchnad waith, ac felly nid ydynt yn cyfrannu rhyw lawer at gyfoeth y rhanbarth. Ymhlith y rhesymau lu pam nad yw pobl yn gweithio mae problemau iechyd ac anabledd, diffyg gofal plant fforddiadwy, problemau dieithrio cymdeithasol, problemau teithio i’r gwaith a diffyg sgiliau.

3.4 Mae’r ffactorau hyn yn cyfrannu at ddiffyg cyfoeth cymharol y rhanbarth, ac maent yn cyfuno i greu economi anghynhyrchiol, isel ei sgiliau. Cymharol fychan fydd buddsoddiad busnesau bychain y mae’r perchennog yn eu rheoli mewn hyfforddiant, ac mae’r bobl hynny y tu allan i’r farchnad waith yn llai tebygol o geisio hyfforddiant neu o’i dderbyn. Mae’r galw isel yn ei gwneud yn anodd cynnig hyfforddiant cost-effeithiol, yn enwedig o ystyried maint Canolbarth Cymru. Cyfyngedig, felly, yw amrywiaeth yr hyfforddiant a gynigir. Cylch cythreulig sgiliau Canolbarth Cymru yw hyn.

3.5 Bydd TEC Canolbarth Cymru nawr, a CETW yn y dyfodol, yn wynebu dwy her arwyddocaol, sef torri’r cylch cythreulig yma, ac annog unigolion a busnesau i ddatblygu’r sgiliau sy’n angenrheidiol ar gyfer economi llwyddiannus a ffyniannus.

## 4. YMAGWEDD TEC CANOLBARTH CYMRU

4.1 Rydym o’r farn fod ein strategaeth yn darparu sail gadarn y gall CETW adeiladu arni. Pobl â sgiliau’n cyfrannu at gynhyrchiant a natur gystadleuol busnesau Canolbarth Cymru yw ein gweledigaeth ar gyfer economi’r rhanbarth.

4.2 Er mwyn cyflawni hyn mae gennym dri amcan allweddol:

<u>Cynyddu’r galw am sgiliau a hyfforddiant ymhlith busnesau </u>… pobl sy’n datrys

problemau, a gall buddsoddi mewn sgiliau pobl helpu i oresgyn y rhan fwyaf o broblemau busnes, os nad pob un ohonynt – dyma yw ein neges.

Cynyddu'r galw am sgiliau a hyfforddiant ymhlith unigolion … mae'n rhaid i ni wneud i bobl deimlo bod cyflogwyr eu heisiau er mwyn sicrhau eu bod yn dymuno dysgu sgiliau newydd.

Gwella'r cyflenwad hyfforddiant … y galw fydd yn rheoli'r cyflenwad, ond mae'n bosibl hefyd i'r cyflenwad reoli'r galw. Mae'n rhaid i ni helpu ein cyflenwyr i helpu eu hunain trwy eu galluogi i wella'r hyn y maent yn ei gynnig a'r ffordd y maent yn ei gynnig.

4.3 Mae pobl a busnesau yn unigryw, ac mae'n rhaid i'n gwasanaethau fod yn addas at wahanol anghenion ein cwsmeriaid. Mae angen syniadau newydd a chreadigol ar TEC Canolbarth Cymru, a CETW o fis Ebrill nesaf ymlaen, er mwyn goresgyn y rhwystrau i ddysgu a hyfforddi y mae ardaloedd gwledig yn eu hwynebu. Ni ddylai diffyg dehongliad a gweithredu ar lefel ranbarthol leihau manteision ymagwedd Cymru-gyfan tuag at addysg a hyfforddiant.

4. Gan adeiladu ar astudiaeth agoriadol Sgiliau Dyfodol Cymru, rydym wedi paratoi Cynllun Gweithredu Integredig ar Sgiliau i Ganolbarth Cymru gydag aelodau Partneriaeth Canolbarth Cymru. Mae hwn yn cynnig dadansoddiad trylwyr o economi sgiliau Canolbarth Cymru, ac mae'n sefydlu themâu allweddol i gau'r bwlch sgiliau. Nodwyd tair blaenoriaeth ar gyfer 2000 - 2001:

- Datblygu cynllun sgiliau TGC cynhwysfawr.
- Asesu manteision swyddogaeth Dyfodol Canolbarth Cymru ar y cyd, er mwyn cynnig gwell cyfarwyddyd i bawb sy'n ymwneud â datblygu economaidd, sgiliau, hyfforddiant ac addysg.
- Datblygu strategaeth ar y cyd er mwyn creu diwylliant dysgu mwy positif.

4. Yn ogystal â gweithredu ar lefel ranbarthol, rydym wedi ymdrechu i chwarae rhan sylweddol yn y dasg o greu rhaglenni Amcan 1, 3 a Datblygu Gwledig Ewropeaidd yn Genedlaethol ac yn Lleol er mwyn sichrau bod gwerthfawrogiad llwyr o'r agenda sgiliau a bod adnoddau cyflawn ar ei chyfer.

## 5. CYFLAWNIADAU ALLWEDDOL 1999 - 2000

1. Ymhlith ein cyflawniadau allweddol yn ystod ein blwyddyn gyntaf mae:

### Annog Galw am Hyfforddiant Ymhlith Unigolion

- treuliodd 564 o athrawon a darlithwyr 1,257 o ddyddiau ar leoliadau busnes
- cymerodd 4,317 o fyfyrwyr ran mewn lleoliadau profiad gwaith
- cymeradwywyd 2,214 o gwmnïau ar gyfer lleoliadau profiad gwaith
- cymerodd 1,231 o bobl ifanc ran mewn hyfforddiant oedd yn gysylltiedig â gwaith
- cymerodd 778 o oedolion di-waith ran mewn hyfforddiant oedd yn gysylltiedig â gwaith
- agorodd 537 o bobl Gyfrifon Dysgu Personol

**Annog Galw am Hyfforddiant Ymhlith Busnesau**

- Cynorthwyodd prosiectau adnoddau dynol a phrosiectau datblygu rheolwyr 831 o fusnesau, gan gynnwys 57 oedd yn dechrau o'r newydd
- Ymrwymodd 59 o fusnesau i safon Buddsoddwr mewn Pobl, neu llwyddasant i ennill y dyfarniad hwnnw
- Derbyniodd 356 o fusnesau gymorth ein cynghorydd Byg y Mileniwm

**Datblygu'r Cyflenwad Hyfforddiant**

- Cynorthwywyd 72 prosiect er mwyn cwrdd ag anghenion lleol
- Ni oedd y TEC cyntaf yng Nghymru i gynnal cyfarfodydd Bwrdd cyhoeddus
- Cyhoeddwyd Cynllun cyntaf ar Weithredu Integredig ar Sgiliau i Ganolbarth Cymru

1. Yn ogystal â chyflwyno rhaglenni sgiliau ar gyfer unigolion a busnesau dan gontract â'r Cynulliad Cenedlaethol, buom yn buddsoddi'n sylweddol mewn sawl prosiect lleol. Ysgogwyd y buddsoddiadau hyn naill ai gennym ni ein hunain, neu gan bartneriaeth. Ymhlith yr enghreifftiau diddorol mae:

- Rhaglen Datblygu Sgiliau Partneriaeth
- Cylch Sgiliau Gwynedd – cynllun rhannu prentisiaeth.
- Hyfforddiant sgiliau i droseddwyr ifainc
- Hyfforddiant Cynghorau Cymunedol
- Rhaglen Sgiliau Newydd i Deuluoedd sy'n Ffermio
- Uwchraddio sgiliau gweithwyr tecstilau
- Sgiliau mentergarwch i bobl ifanc

## 6. TARGEDAU ALLWEDDOL

1. Dyma ein nodau dros y tair blynedd nesaf:

**Datblygu ymrwymiad i ddatblygiad personol trwy ddysgu parhaus ymhlith pobl sy'n byw yng Nghanolbarth Cymru.**

| **3 Blynedd** | ***(2000/01)*** | |
|---|---|---|
| 7000 | *(2000)* | o bobl ifanc i gymryd rhan mewn prosiectau sy’n gysylltiedig â busnes a phrofiad gwaith |
| 3800 | *(1900)* | o bobl ifanc i gymryd rhan mewn hyfforddiant sy’n gysylltiedig â gwaith |
| 2200 | *(750)* | o bobl ddi-waith i gymryd rhan mewn hyfforddiant sy’n gysylltiedig â gwaith |
| 6000 | *(1200)* | o unigolion i agor Cyfrifon Dysgu Personol |

**Datblygu busnesau a sefydliadau sy’n gosod dysgu yn ganolbwynt i’w cynlluniau.**

| **3 Blynedd** | ***(2000/01)*** | |
|---|---|---|
| 500 | *(150)* | o fusnesau i ddatblygu a chyflwyno cynllun hyfforddi strwythuredig |
| 130 | *(30)* | o fusnesau i gyflawni safon Buddsoddwyr mewn Pobl |
| 400 | *(50)* | o fusnesau i ddefnyddio’r Model Rhagoriaeth fel fframwaith ar gyfer gwella’n barhaus |
| 2000 | *(600)* | o unigolion i gymryd rhan mewn gweithgaredd datblygu rheolwyr |
| 12000 | *(3000)* | o weithwyr i gymryd rhan mewn hyfforddiant crefftwyr a thechnegwyr |

**Sicrhau bod cyfleoedd dysgu perthnasol, o ansawdd uchel, ar gael yng Nghanolbarth Cymru.**

| **3 Blynedd** | ***(2000/01)*** | |
|---|---|---|
| 100% | *(50%)* | o ddarparwyr hyfforddiant i ddefnyddio’r Model Rhagoriaeth fel fframwaith ar gyfer datblygu eu sefydliad |
| 100% | *(20%)* | o ddarparwyr hyfforddiant i gyflawni safon Buddsoddwyr mewn Pobl |
| 3% | *3%* | gostyngiad bob blwyddyn mewn costau rheoli a gweinyddu |
| £5m | *£250,000* | Sicrhau £5m o arian Ewropeaidd i gefnogi gweithrediadau TEC Canolbarth Cymru |

Cynnal statws ‘risg isel’ y Cynulliad Cenedlaethol
Ffeilio cyfrifon blynyddol diamwys